

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru gyfer Addysg Bellach Tystiolaeth o Fanylion Personol

Defnyddiwch yr wybodaeth isod i weld pa ddogfennau gwreiddiol y bydd angen i chi eu hanfon atom i gadarnhau eich manylion. Dylech anfon llungopiâu o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.

Os oes gennych basbort y Deyrnas Unedig dilys, rhowch y manylion hyn ar y ffurflen gais. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi anfon eich pasbort atom.

Prawf o'ch hunaniaeth neu'ch oedran

Dylech anfon y canlynol atom:

- Eich manylion pasbort dilys y Deyrnas Unedig yn unol â'r cais yn adran 5 y ffurflen gais; **neu**
- Eich pasbort **gwreiddiol** dilys nad yw o'r Deyrnas Unedig; **neu**
- Eich tystysgrif geni/mabwysiadu **wreiddiol**; **neu**
- Eich Caniatâ Preswyllo Biometrig **gwreiddiol**.

Os yw'ch enw wedi newid o'r un sy'n ymddangos ar eich dogfennau, bydd angen i chi anfon prawf atom o'r ffaith bod eich enw wedi newid hefyd, a gall hyn fod:

- Eich tystysgrif briodas **wreiddiol**; **neu**
- Gweithred newid enw **wreiddiol**.

Prawf o'ch cyfeiriad

Dylech anfon y canlynol atom:

- Fil nwy, bil trydan neu fil tebyg, yn ddyddiedig yn ystod y tri mis diwethaf; **neu'ch**
- Bil y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol; **neu'ch**
- Datganiad budd-daliadau mwyaf diweddar.

Gall y prawf fod yn enw eich rheini/partner.

Prawf o'ch statws priodasol presennol

Dylech anfon y canlynol atom:

Os ydych yn briod

- Eich tystysgrif briodas **wreiddiol**.

Os ydych mewn partneriaeth sifil

- Eich tystysgrif partneriaeth sifil **wreiddiol**.

Os ydych wedi ysgaru

- Eich archddyfarniad absoliwt; **neu'ch**
- Gorchymyn diddymu; **neu**

- Lythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau'ch statws.

Os ydych wedi gwahan

- Llythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau'ch statws.

Os yw'ch partneriaeth sifil wedi cael ei diddymu

- Eich gorchymyn diddymu; **neu**
- Lythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau'ch statws.